Gwynt GLAS

Cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i Gymru

Prosiect gwynt ar y môr arloesol sy'n cefnogi buddsoddiad, swyddi a chymunedau lleol.

Mae Gwynt Glas yn brosiect gwynt ar y môr arfaethedig yn y Môr Celtaidd, sy'n dwyn ynghyd arbenigedd byd-eang i ddatblygu prosiect ynni adnewyddadwy sy'n torri tir newydd.

Gyda'r potensial i gynhyrchu hyd at 1.5 gigawat o ynni adnewyddadwy, mae Gwynt Glas yn cynrychioli cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ddarparu cyfleoedd gyrfaol cynaliadwy o ansawdd uchel i bobl yng Nghymru a thu hwnt.

Mae cyfleoedd ar y raddfa hon yn brin. Bydd penderfyniadau a wneir yn awr yn pennu a fydd Cymru'n manteisio ar werth economaidd hirdymor ynni gwynt ar y môr; gan ysgogi buddsoddiad, creu swyddi a diwydiannau gwyrdd newydd.

Mae gan Gwynt Glas y potensial i chwarae rôl ganolog mewn cefnogi uchelgeisiau ynni glan Cymru a'r DU, gan helpu i sefydlu Cymru fel arweinydd mewn ynni gwynt ar y môr a sicrhau twf economaidd yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu potensial trawsffurfiol Gwynt Glas, beth y gallai ei olygu i Gymru, a sut y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau, busnesau a rhanddeiliaid i fanteisio i'r eithaf ar y gwerth hirdymor.

- Hyd at 1.5 gigawat o ynni adnewyddadwy
- Ar gyfartaledd yn pweru yr hyn sy'n cyfateb i hyd at 1.6 miliwn* o dai yn y DU
- Yn helpu i sefydlu Cymru fel arweinydd y genhedleath nesaf o ynni gwynt ar y môr
- Mae Ysâd y Goron yn amcangyfrif y galli ynni gwynt ar y môr yn y Môr Celtaidd gefnogi 5,300 o swyddi

*Ar sail 3,954 kWh

"Cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i lywio dyfodol ynni yng Nghymru a gyrru twf economaidd"

Mark Hazelton
Cyfarwyddwr y Prosiect, Gwynt Glas

Yn cael ei ddatblygu gan ESB energy, EDF power solutions, Sumitomo Corporation

Yn cael ei gefnogi gan y partner datblygu DP ENERGY

Swyddi a chyfleoedd i gymunedau a phobl leol

Ein ffocws yw sicrhau bod Cymru a De-orllewin Lloegr yn manteisio ar y gyfran fwyaf posibl o'r cyfle hwn – gan greu gyrfaoedd hirdymor o ansawdd uchel ledled y rhanbarth a thu hwnt.

- Hyd at 5,300 o swyddi wedi'u cefnogi gan ynni gwynt are y môr yn y Môr Celtaidd
- Prentisiaethau a ffocus ar yrfaoedd cynnar
- Cyfleoedd ar draws y sector adeiladu, gweithrediadau a'r economi ehangach
- Gyrfaoedd hirdymor, nid rolau tymor byr

Twf i fusnesau

Mae prosiectau ar y raddfa hon yn gatalyddion ar gyfer cyfnod newydd o weithgaredd diwydiannol yng Nghymru, gan alluogi diwydiannau gwyrdd newydd wedi'u pweru gan ddigonedd o ynni glân ac ymwreiddio twf economaidd hirdymor ledled y rhanbarth.

- Cyfleoedd ar draws porthladdoedd, logisteg, gwasanaethau morol a chadwyni cyflenwi
- Cefnogi busnesau Cymreig i'w defnyddio ac i gystadlu
- Buddsoddiad mewn cymunedau a seilwaith arfordirol
- Gweithgaredd ehangach ar draws gwasanaethau a diwydiannau lleol
- Sicrhau bod y gwerth economaidd hirdymor yn cael ei gadw yng Nghymru a'r DU

Os ydych yn fusnes lleol, gallwch gofrestru eich diddordeb drwy ein **porth** penodedig ar wefan y prosiect.

Cymunedau lleol cryfach

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y prosiect hwn yn darparu gwerth parhaol a gweladwy i gymunedau — gan gefnogi cyfle a gwydnwch hirdymor.

- Partneriaeth gydag awdurdodau a sefydliadau lleol
- Cefnogi mentrau a blaenoriaethau lleol
- Ymgysylltiad cymunedol a chylch adborth cyson
- Ffocws gwerth cymdeithasol hirdymor

Buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf

Mae angen gweithlu medrus ac uchelgeisiol i gyflawni'r cyfle hwn, gan wneud hyfforddiant ac addysg yn hanfodol i sicrhau bod cymunedau lleol yn cael budd o yrfaoedd hirdymor mewn ffermydd gwynt arnofiol ar y môr, gyda chydweithredu gweithredol eisoes ar waith gyda darparwyr hyfforddiant Cymreig yn unol â blaenoriaethau'r Llywodraeth.

- Partneriaethau gydag ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant
- Darparu dealltwriaeth o'r byd go iawn, mentora ac ymgysylltiad
- Cefnogi llwybrau clir i yrfaoedd ynni adnewyddadwy
- Helpu pobl ifanc i gael mynediad at yrfaoedd hirdymor o ansawdd uchel
- Pontio bylchau mewn sgiliau drwy gydweithio â diwydiant

Y Rhaglen Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy – datblygu sgiliau ar waith

- Rhaglen 2 flynedd sydd wedi ennill gwobrau i bobl ifanc 16–18 oed
- Meithrin sgiliau'r byd go iawn a gwybodaeth o ddiwydiant
- Cysylltu myfyrwyr yn uniongyrchol â chyflogwyr
- Mae'n cynnwys gweithdai, ymweliadau safle a mentora

Mae Gwynt Glas yn brif bartner ochr yn ochr â Choleg Sir Benfro a phartneriaid y diwydiant.



Fferm Wynt Arfaethedig Gwynt Glas



Fferm Wynt Arnofiol ar y Môr Gwynt Glas | Cyfyngiad y DU o 12 milltir forol | Cyfyngiad môr tiriogaethol Cymru

Trosolwg o Gwynt Glas

Mae Gwynt Glas yn brosiect gwynt ar y môr arfaethedig yn y Môr Celtaidd, a fydd yn defnyddio atebion gwynt ar y môr arloesol i gynhyrchu trydan adnewyddadwy.

Bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu gan EDF Power Solutions, ESB a Sumitomo. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n agos gyda thîm DP Energy sydd wedi'i leoli yn Sir Benfro, sy'n bartner datblygu unigryw, i gael budd o'i wybodaeth leol gryf, ei gysylltiadau sefydledig â rhanddeiliaid, a'r gwaith parhaus â sefydliadau addysgol i gefnogi datblygiad sgiliau a chyfleoedd economaidd yng Nghymru.

Bydd y fferm wynt wedi'i lleoli yn nyfroedd Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddylunio agweddau eraill ar y prosiect, ond mae'n hysbys y bydd y cysylltiad â'r grid cenedlaethol drwy geblau tanddaearol. Er bod y prosiect ar gam cynnar, disgwylir y bydd yn cynhyrchu trydan adnewyddadwy erbyn diwedd y 2030au.

Cysylltwch â ni

Wrth i'n tîm barhau i weithio ar Gwynt Glas, rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn.

Anfonwch e-bost at: info@gwyntglas.com

Visit: www.gwyntglas.com

Ceir rhagor o wybodaeth am Gwynt Glas ar ein gwefan, gan gynnwys cefndir y prosiect, ein partneriaeth a'n gwerthoedd menter ar y cyd, y broses gynllunio, partneriaid y diwydiant a'r gadwyn gyflenwi.